**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **HSS-18-02(p.10)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 23 Hydref 2002**
**Lleoliad:** **Ystafelloedd Bwyllgora 3 & 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Targedau Staffio ar gyfer y GIG yng Nghymru**

## Diben

1. Rhoi gwybodaeth fanwl i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am dargedau staffio GIG Cymru fesul Ymddiriedolaeth a phroffesiwn.

## Argymhellion

2. Gwahoddir y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi'r targedau a glustnodwyd.

## Rhagarweiniad

3. Cyflwynwyd y targedau staffio cyffredinol ar gyfer y GIG yng Nghymru i'r Pwyllgor ar 27 Mehefin 2002. Y targedau cyffredinol ar gyfer Cymru yw :-

- 700 yn fwy o ymgynghorwyr a Meddygon Teulu.
- 6,000 yn fwy o nyrsys
- 2,000 yn fwy o weithwyr proffesiynol iechyd

erbyn 2010.

4. Yn y cyfarfod hwnnw cytunwyd y byddai papur arall yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor fydd yn rhoi mwy o fanylion am y targedau fesul Ymddiriedolaeth a phroffesiwn.

## Y Targedau

5. Mae'r targedau unigol fesul Ymddiriedolaeth a phroffesiwn ar gael yn Atodiad 1.

6. Fel yn achos holl dargedau Cymru, mae'r targedau unigol yn seiliedig ar y data ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaethau yn 2001. Archwiliwyd y data gan gynghorwyr proffesiynol Llywodraeth Cynulliad Cymru, grwpiau Cymru gyfan sy'n cynrychioli'r proffesiynau, a chadarnhawyd eu bod yn ddilys gan Brif Weithredwyr yr Ymddiriedolaethau. Mae rhai newidiadau hefyd wedi'u gwneud yn unol â'r data a gyflwynwyd fel rhan o gylch 2002 o gasglu data am y gweithlu. Mae rhai cymariaethau wedi'u gwneud hefyd yn erbyn nifer y gwelyau aciwt a nifer y nyrsys mewn ysbytai a'r targedau ar eu cyfer.

7. Mae targed cyffredinol o 175 yn ychwanegol o Feddygon Teulu wedi'i gynnwys yn y targed o 700 yn fwy o Feddygon Teulu ac ymgynghorwyr meddygol mewn ysbytai. Nid yw'r targed hwn wedi cael ei rannu ar draws Cymru - cyfrifoldeb Grwp Llywio'r Gweithlu fydd gwneud mwy o waith manwl trwy drafodaethau gyda'r "Gweithgor Swyddi Gwag ar gyfer Meddygon Teulu" a sut a lle y dylid lleoli swyddi newydd ar gyfer Meddygon Teulu. Bydd y trafodaethau ynghylch y contractau newydd i Feddygon Teulu yn cael cryn effaith a bydd yn rhaid i'r Grwp Llywio ystyried hyn yn eu trafodaethau.

**Cyrraedd y Targedau**

8. Cafodd Grwp Llywio Datblygu'r Gweithlu, a gadeiriwyd gan Gyfarwyddwr y GIG yng Nghymru, eu cyfarfod cyntaf ar 1 Hydref.

9. Bydd y Grwp hwn yn gyfrifol am helpu'r gwasanaeth yng Nghymru i gyrraedd y targedau, trwy gynyddu'r comisiynau addysg a hyfforddiant a thrwy bolisïau recriwtio a chadw cadarn. Bydd y targedau yn adeiladu ar y cynnydd yn y lefelau staffio a gyrhaeddwyd eisoes ers 1997 (cynnydd o 12%).

10. Mae GIG Cymru wedi dechrau ar raglen o adnewyddu a moderneiddio. Mae hyn, ynghyd â'r gwelliant parhaus mewn safonau a'r gwasanaeth a ddarperir, yn golygu y bydd y gweithlu yn esblygu ac yn newid i gwrdd â'r gofynion newydd. Er bod y targedau wedi cael eu pennu, mae'n bwysig iawn cael hyblygrwydd er mwyn i'r Gwasanaeth fedru datblygu a newid yn unol â datblygiadau mewn gofal, polisïau strategol a datblygiadau'r gweithlu, gan gynnwys newidiadau yn amrywiaeth y sgiliau ac ailddylunio swyddi. Mae'r gallu i addasu'r targedau i gwrdd ag anghenion cyfnewidiol y gwasanaethau yn thema sydd wedi codi dro ar ôl tro ers i'r data ar gynllunio'r gweithlu gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2001. (HSS-17-01(p.3). Mae'n bwysig ategu y bydd y targedau yn cael eu hailystyried wrth i'r arferion gweithio newid ac wrth i bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu.

11. Fel y nodwyd yn HSS-14-02(p.2), bydd gan y Grwp Llywio gylch gwaith mwy eang, sef archwilio sut y gellir datblygu'r gweithlu presennol er mwyn gwneud yn siwr bod galluoedd holl staff y GIG yn cael eu defnyddio i'r eithaf. Wrth i'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn darparu gofal iechyd yn newid, bydd y gweithwyr proffesiynol fydd eu hangen arno i gyflawni'r newidiadau hyn hefyd yn newid. Gallai'r gofynion staffio a glustnodir gan y gwasanaeth eleni fod yn wahanol iawn i'r anghenion a glustnodir ym mhen 3 blynedd. Mae'n bosibl y bydd datblygiadau a blaenoriaethau newydd erbyn hynny; efallai y bydd arferion newydd ac arloesol wedi cael eu cyflwyno ac y bydd y materion sydd ynghlwm wrth sicrhau amrywiaeth o sgiliau wedi eu harchwilio. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn parhau'n hyblyg yn ein hagwedd tuag at gynllunio'r gweithlu a chomisiynu addysg a hyfforddiant. Hefyd, bydd y Grwp Llywio yn gyfrifol am adnabod, cefnogi ac adeiladu ar sgiliau'r staff hynny sydd wedi eu heithrio o'r targedau, ond sydd â chyfraniad hanfodol i'w wneud i ddyfodol y GIG.

12. Fe fydd cryn amser yn mynd heibio rhwng adnabod yr angen am staff ychwanegol a'r adeg pan fydd y staff hynny wedi cymhwyso trwy'r broses

addysg a hyfforddiant.  Mae'r targedau ar gyfer cynyddu'r comisiynau addysg a hyfforddiant a bennwyd yn y Cynllun i Gymru 2001 bron â'u cyrraedd, ond ni fydd y myfyrwyr ychwanegol hyn yn ennill cymhwyster am sawl blwyddyn eto. Bydd Grwp Llywio Datblygu'r Gweithlu yn gyfrifol am barhau i roi pwyslais ar dwf addysg a hyfforddiant trwy'r dulliau traddodiadol o weithredu yn ogystal â'r rhai mwy dyfeisgar.  Bydd hyn yn cynnwys ei gwneud yn haws i bob un a hoffai weithio yn y GIG yng Nghymru gael hyfforddiant.

13. Rhagwelir y bydd y targedau yn cael eu cwrdd trwy dwf cyson a chynaliadwy yn ystod yr 8 mlynedd tan 2010. Bob blwyddyn, bydd y Grwp Llywio yn cadw llygad ar y gwaith a wneir tuag at gyrraedd y targedau.

**Materion Ariannol**

14. Mae'r targedau staffio yn cwmpasu cyfnod o 8 mlynedd.  Bydd angen ariannu'r gwaith o gyrraedd y targedau hyn o'r dyraniadau fydd yn cael eu rhoi bob blwyddyn i'r Byrddau Iechyd Lleol.

**Cydymffurfio â'r Cynulliad**

15. Mae gan y Cynulliad awdurdod dirprwyedig dros faterion gweithlu'r GIG o dan adran 2 o Ddeddf GIG 1977.  Mae swyddogaethau'r Cynulliad o dan y Ddeddf GIG hyd yma a ddirprwywyd i Brif Weinidog Cymru, wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.  Nid oes unrhyw faterion o reoleidd-dra na phriodoldeb.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt:**  Hilary Neagle, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol, GIG Cymru

**TARGEDAU STAFFIO 2010**

| | Ymgynghorwyr | Meddygon Teulu | Nyrsys mewn Ysbytai | Nyrsys Cymunedol | Therapyddion a Gweithwyr Proffesiynol eraill | Y Proffesiynau Gwyddonol | Fferyllwyr | Parafeddygon |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Caerdydd a'r Fro** | 100 | | 740 | 92 | 196 | 64 | 20 | 0 |
| **Pontypridd a Rhondda** | 35 | | 328 | 117 | 54 | 23 | 23 | 0 |
| **Gogledd Morgannwg** | 40 | | 243 | 92 | 47 | 38 | 14 | 0 |
| **Felindre** | 10 | | 167 | 0 | 2 | 47 | 1 | 0 |
| **Gofal Iechyd Gwent** | 60 | | 614 | 134 | 233 | 43 | 14 | 0 |
| ***IS-GYFANSWM*** | ***245*** | | ***2092*** | ***435*** | ***532*** | ***215*** | ***72*** | |
| **Abertawe** | 60 | | 506 | 117 | 29 | 45 | 26 | 0 |
| **Bro Morgannwg** | 46 | | 616 | 90 | 147 | 31 | 12 | 0 |
| **Caerfyrddin** | 20 | | 192 | 91 | 20 | 27 | 8 | 0 |
| **Ceredigion** | 15 | | 110 | 29 | 15 | 9 | 1 | 0 |
| **Sir Benfro a Derwen** | 20 | | 209 | 34 | 58 | 6 | 11 | 0 |
| **Gofal Iechyd Powys** | 10 | | 8 | 50 | 19 | 16 | 0 | 0 |
| ***IS-GYFANSWM*** | ***171*** | | ***1641*** | ***411*** | ***288*** | ***134*** | ***58*** | |
| **Gogledd Orllewin Cymru** | 29 | | 362 | 180 | 82 | 52 | 12 | 0 |
| **Gogledd Ddwyrain Cymru** | 40 | | 221 | 101 | 108 | 41 | 6 | 0 |
| **Conwy a Sir Ddinbych** | 40 | | 436 | 121 | 90 | 49 | 11 | 0 |
| ***IS-GYFANSWM*** | ***109*** | | ***1019*** | ***402*** | ***280*** | ***142*** | ***29*** | |
| **Yr Ymddiriedolaeth Ambiwlans** | 0 | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 |
| ***CYFANSWM*** | ***525*** | ***175*** | ***4752*** | ***1248*** | ***1100*** | ***491*** | ***159*** | ***250*** |

Mae Therapyddion a Gweithwyr Proffesiynol eraill yn cynnwys: Ffisiotherapyddion, Therapyddion Galwedigaethol, Therapyddion Iaith a Lleferydd, Deietegwyr, Seicolegwyr Clinigol, Ymarferwyr yn yr Adran Llawdriniaeth, Orthoptyddion, Orthotyddion a Phrosthetyddion, Trallwyswyr, Therapyddion Cerdd, Celf a Drama, Podiatryddion.

Mae'r Proffesiynau Gwyddonol yn cynnwys: Gwyddonwyr Clinigol, Radiograffyddion Diagnostig, Radiograffyddion Therapiwtig, Technegwyr Mesuriadau Ffisiolegol, Gwyddonwyr Biomeddygol

*